Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ysgoloriaethau Israddedig

Mantais

Ysgoloriaethau – eich cyfle chi

Prif Ysgoloriaethau 2012-13

Bydd 50 o Brif Ysgoloriaethau ar gael ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau astudio cyrsiau gradd o bob math mewn prifysgolion ar draws Cymru ym mis Medi 2012.

Mae Prif Ysgoloriaethau yn werth £1,000 y flwyddyn ac mae bron i 300 o wahanol gyrsiau gradd bellach yn cynnwys digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (80 credyd ym mhob blwyddyn) i fod yn rhan o'r cynllun.

Pwysig....pwysig....pwysig
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am Brif Ysgoloriaethau 2012-13 yw: **15 Ionawr 2012**
Dyna'r dyddiad ar gyfer cyflwyno ceisiadau UCAS hefyd.

Ysgoloriaethau Cymhelliant 2012-13

Bydd 100 o Ysgoloriaethau Cymhelliant ar gael yn 2012. Dim ond myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau gradd penodol yn un o naw maes academaidd fydd yn gallu gwneud cais.

Mae'r Ysgoloriaethau Cymhelliant yn werth £500 y flwyddyn (neu £1500 dros dair blynedd) ac maent ar gael ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn (sef traean o'r cwrs) – drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y naw maes academaidd yw:

- Gwyddorau'r Amgylchedd a Daearyddiaeth
- Busnes a Rheolaeth
- Gwaith Cymdeithasol
- Gwyddorau ac Astudiaethau Chwaraeon
- Y Gyfraith
- Gwyddorau Iechyd
- Ieithoedd Modern Ewropeaidd
- Mathemateg a Ffiseg
- Seicoleg

Pwysig...pwysig...pwysig
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am yr Ysgoloriaethau Cymhelliant 2012-13 yw: **4 Mai 2012**

Ewch amdani?

sut i ymgeisio am ysgoloriaeth

Ystyried gwneud cais am un o ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol? Dyma gyngor gan Betsan Wyn Williams, merch fferm 18 oed, o Drefach Felindre, yn Nyffryn Teifi, sydd wedi derbyn Prif Ysgoloriaeth gan y Coleg eleni:

Gwneud cais

"Rwy'n falch iawn fy mod i wedi gwneud cais am Ysgoloriaeth. Pe bydden i heb wneud e, fydde'r arian ddim 'da fi i wneud be wy'n moyn ei wneud.

"Mae'n hawdd gwneud cais. Y cwbl sydd rhaid ei wneud yw llanw ffurflen.

"Dyw e ddim yn gymhleth, does dim pwyse. Felly, does dim esgus i beidio â mynd amdani!"

Bywyd coleg

"Rwy' ar fy mlwyddyn gyntaf, yn gwneud cwrs Addysg Blynyddoedd Cynnar ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Ro'n i'n awyddus i weithio gyda phlant bach a falle yn y dyfodol y bydda' i'n gweithio yn y maes gwaith cymdeithasol, neu gyda'r heddlu.

"Mae'r cwrs yn ddiddorol, ry'n ni'n edrych ar ochor greadigol plentyn, a'r ffordd y mae plentyn yn datblygu.

"Rwy'n teimlo'n gyfforddus gan fy mod i'n gwneud popeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

"Rwy'n gobeithio y bydd yr ysgoloriaeth yn help i mi pan fydda' i'n mynd dramor i weithio fel rhan o'r cwrs. Rwy'n edrych ymlaen at hynny."

Gwybodaeth ... gwybodaeth

Mae'r holl wybodaeth am yr ysgoloriaethau a sut i ymgeisio ar wefan mantais

www.mantais.ac.uk

Cynhyrchwyd gan golwg ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Simon yn bachu'i gyfle

Mae Simon O'Leary o Gaerfyrddin yn mwynhau pob math o chwaraeon. Rygbi, pêl-droed, rhedeg. Mae wrth ei fodd.

Dim rhyfedd felly fod y bachwr rygbi wedi dewis dilyn cwrs Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd.

A, gan ei fod yn dymuno gwneud rhan o'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg, mae wedi derbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant gwerth £500 y flwyddyn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

"Rwy'n falch fy mod i wedi dewis gwneud rhai modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r dosbarthiadau'n llai ac rwy'n teimlo yn gyfforddus a chartrefol iawn," meddai Simon.

Mae'r modiwlau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys Cyflwyniad i'r Broses Ymchwil, Cyflwyniad i Ffisioleg Chwaraeon ac Ymarfer, a Chwaraeon mewn Cymdeithas.

"Rwy'n mwynhau'r cwrs ac rwy' wedi dechre chwarae rygbi i dîm ffreshyrs y Brifysgol. Rwy hefyd yn fachwr i dîm Quins Caerfyrddin.

"Rwy'n mwynhau'r cwrs, rwy'n mwynhau mynd mas a chymdeithasu a chael laff. Joio!"

3 Hoff Beth Simon:

Chwarae rygbi
Cymdeithasu
Ymlacio

Ysgoloriaeth sicrwydd

Mae gan Madison Keeping deimlad braf. Oherwydd Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol does dim rhaid iddi boeni am arian.

"Rwy wedi cael swydd penwythnos mewn siop gardiau hefyd, ac felly mae hyn a'r Ysgoloriaeth yn golygu fy mod i'n gallu bod yn annibynnol," meddai. "Mae hynny'n deimlad neis."

Mae'r ferch o Bencoed ger Pen-y-bont ar Ogwr yn fyfyriwr blwyddyn gyntaf yn astudio Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe.

"Rwy'n eitha' da am fod yn ofalus gydag arian. Dw i ddim am wario fy arian yn wyllt, rwy am fod yn eitha' call, ond falle y caf fi un ymweliad â'r siopau!"

Ei hathro Cymraeg yn yr ysgol ac aelodau'r Adran Gymraeg sydd wedi ysbrydoli'r ddysgwraig i ddod yn rhugl ac anelu at fod yn

Gramadeg rŵls ocê

Mae gan Elis Dafydd, o bentref Trefor yng Ngwynedd, ddwy neges bwysig:

- "Adran Gymraeg Prifysgol Bangor ydi'r orau yn y byd."
- "Mae Gramadeg yn hwyl!"

Mae Elis yn fyfyriwr blwyddyn gyntaf yn astudio Cymraeg ym Mangor ar ôl derbyn un o ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae wedi cael ei ysbrydoli.

"Mae'n adran anhygoel. Y tymor yma, rydan ni'n astudio gwaith Ifor ap Glyn yn y modiwl Llên Gyfoes, a nofel Lloyd Jones, **Y Dŵr**. Mae'r modiwl Beirniadaeth Lenyddol yn ddifyr hefyd. Rydan ni'n cario ymlaen i drafod ar ôl y ddarlith!

"Yn yr ysgol roedd pawb yn casáu gramadeg, ond yma mae pawb wrth eu boddau efo fo. Rydan ni'n edrych ar batrymau iaith – mae'n ddiddorol iawn. Dyma fy hoff bwnc ar hyn o bryd.

"I mi, mae pob dim wedi dod at ei gilydd. Dw i yn y lle iawn, yn gwneud y cwrs iawn, efo'r bobl iawn."

Manteision yr Ysgoloriaeth

Mae Elis wedi derbyn Prif Ysgoloriaeth. "Mae'n lot o help. Mae'n rhaid prynu llyfrau ar gyfer y cwrs, ac wrth gwrs, mae'n rhaid cymdeithasu!"

Cyfraith ... a chymdeithasu

"Ein teulu ni yw'r unig deulu sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal lle rwy'n byw," meddai Victoria Barnes.

Bellach, ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae hi'n gallu siarad Cymraeg bob dydd – ar ei chwrs ac wrth gymdeithasu.

"Dyw mam ddim yn siarad Cymraeg ond mi wnes i, fy nwy chwaer a fy nau frawd fynd i Ysgol Gyfun Gwynllyw," meddai'r ferch o Gwmbrân. "Mae mam yn dysgu Cymraeg ei hun yn awr hefyd."

Mae Victoria ar ei blwyddyn gyntaf yn astudio'r Gyfraith, ac mae wedi gwirioni ar ôl derbyn Prif Ysgoloriaeth.

"Mae'n rhaid i mi brynu llawer o lyfrau ar gyfer y cwrs felly fe fydd e'n ddefnyddiol iawn."

Yn ogystal â'i diddordeb yn y Gyfraith, mae wrth ei bodd mewn ardal lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad.

"Yn y dyfodol mi faswn i'n hoffi astudio ar gyfer PhD yn y Gyfraith, ac efallai mynd i weithio gyda'r heddlu.

"Rwy'n credu fod y penderfyniad i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn un doeth. Rwy'n ei hoffi fe, ac mae e'n cynnig opsiynau i fi ar ôl i fi orffen y cwrs."

3 Hoff Beth Victoria

Cerddoriaeth
Siopa
Cymdeithasu

yn rhoi

athrawes Gymraeg.

"Fe ddewisais i ddod i Abertawe gan fod y cwrs yn un pedair blynedd, ac yn y flwyddyn gyntaf mae'r pwyslais ar wella sgiliau iaith. Mae'n galed ond rwy'n ennill mwy a mwy o hyder. Rwy wir yn mwynhau'r cwrs."

Madison – o ble ddaeth yr enw?

"Roedd fy rhieni wedi gwylio'r ffilm, Splash, (gyda Tom Hanks a Daryl Hannah) ac enw'r fôr-forwyn yn y ffilm yw Madison. Fe wnaethon nhw syrthio mewn cariad â'r enw!"

Sut i ddewis coleg?

"Dilyna dy reddf. Gwna'r pwnc ti wirioneddol eisio'i wneud, paid â chael dy berswadio i ddilyn ffordd y mae rhywun arall wedi ei ddewis i ti. Tydi mynd i Rydychen neu Gaergrawnt ddim yn siwtio pawb."

Y dyfodol

"Dw i'n gobeithio cael swydd lle dw i'n ennill lot o bres wrth wneud chydig bach o waith."

Seminarau cyfrwng Cymraeg yn plesio

"Mae'n heriol ond mae'n wych," meddai Laurie Jefferies o Abercarn wrth sgwrsio am ei chwrs ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae Laurie ar ei blwyddyn gyntaf yn y Brifysgol, yn astudio'r Gyfraith, a Chymraeg. Mae wedi derbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac yn gwerthfawrogi'r ffaith ei bod yn cael seminarau trwy gyfrwng y Gymraeg wrth astudio'r Gyfraith.

"Mae'n braf iawn. Wy'n dod o deulu di-Gymraeg ond wy wedi derbyn addysg Gymraeg ers i mi fod yn blentyn bach, felly wy'n gyfarwydd â thrafod pethe yn Gymraeg," meddai Laurie sy'n gyn-ddisgybl yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

"Rwy'n mwynhau bod yn y coleg mas draw – gormod weithie!!

"Wy'n teimlo fel oedolyn go iawn, yn berson annibynnol. Mae'n rhaid i mi fod yn gyfrifol am fy mywyd fy hun.

"Mae'n wych fy mod i wedi derbyn ysgoloriaeth. Mae'n tynnu'r pwyse i ffwrdd."

Gan ei bod hi'n byw mewn neuadd hunanarlwyo, mae Laurie wedi bachu ar y cyfle i wella ei sgiliau coginio.

"Fy ffefryn yw Spag Bol - hoff bryd pob myfyriwr!"

Ffordd o wneud ffrindiau da

Pwy?: Louise Smith
O ble: Sgiwen, ger Castell-nedd
Prifysgol: Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin
Pwnc: Astudiaethau Crefydd
Pa ysgoloriaeth?: Un o'r prif ysgoloriaethau.
Pam dewis y pwnc? Mae gen i ddiddordeb mewn pobl a sut maen nhw'n byw.
Cwrs? Rwy'n astudio dau fodiwl - Cyflwyniad i'r Beibl a Chrefyddau Byw sy'n edrych ar y gwahanol grefyddau yn y byd fel Islam a Hindŵaeth. Rwy'n joio'n fawr iawn.
Peth gorau am y coleg: Cymdeithasu! Dim ond saith ohonon ni sy'n gwneud y cwrs ac r'yn ni'n barod yn ffrindie mawr.
Hoff beth: Dawnsio. Rwy'n mwynhau pob math o ddawnsio - dawnsio llinell, dawnsio gwerin, clocsio.
Y fantais: Mae'n braf iawn cael astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Rwy'n teimlo'n fwy hyderus yn sgrifennu yn Gymraeg. Mae'n llawer o help. Ac oherwydd fy mod i'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, dw i wedi ennill un o Brif Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol!

Grwpiau llai, mwy o obaith

Mae astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnig manteision a chyfleoedd, meddai myfyriwr o Lanuwchllyn ger y Bala.

Mae hynny'n cynnwys dosbarthiadau llai, mwy o gyswllt uniongyrchol gyda darlithwyr a gwell gobaith am swydd.

Mae Evan Eben Pugh Jones yn fyfyriwr blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, yn gwneud gradd mewn Chwaraeon ac Addysg Gorfforol. Mae â'i fryd ar fod yn athro Addysg Gorfforol.

"Dw i wedi ennill Ysgoloriaeth Cymhelliant, sy'n help mawr i brynu adnoddau angenrheidiol fel llyfrau.

"Dw i'n dod o ardal Gymraeg iawn, mi ges i fy addysg i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg felly mae'n gwneud synnwyr i gario mlaen yn y Brifysgol.

"Dw i'n teimlo'n gyfforddus ac mae'r dosbarthiadau'n llai; ydech chi'n cael mwy o gyswllt personol efo'r darlithwyr, ac mae'n fwy cartrefol.

"Dw i'n gobeithio hefyd y bydd yn gymorth ar ôl i mi orffen fy nghwrs. Mi faswn i'n hoffi dychwelyd i Wynedd ac felly mae'n bwysig iawn gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg."

Cyngor ... cyngor ... cyngor

Pa gyngor sydd gan Eben i rai sy'n meddwl mynd i brifysgol y flwyddyn nesaf?

"Meddylia am y swydd wyt ti eisiau ei wneud ar ôl gadael coleg, ac edrycha'n fanwl ar y wybodaeth am y gwahanol fodiwlau. Mae bob amser yn ddefnyddiol hefyd i siarad efo cyn-fyfyrwyr i gael mwy o wybodaeth am y cwrs, y bywyd cymdeithasol, a'r coleg ei hun.

"O ia, efallai y byddai'n werth i ti gael gwersi coginio. Yn fy wythnos gyntaf, mi ro'n i'n byw ar fîns ar dost. Dwi'n gallu coginio pasta erbyn hyn!"

Y dewis naturiol

Pwy? Dion Owen Jones
O ble? Llansannan
Pa brifysgol? Prifysgol Bangor
Cwrs? Dw i'n fyfyriwr blwyddyn gyntaf, yn astudio Astudiaethau Busnes.
Pa ysgoloriaeth? Mi wnes i dderbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant, sy'n golygu £500 y flwyddyn am dair blynedd. Mi fydd yn ddefnyddiol iawn, yn help i dalu am lety a chostau byw.
Mwynhau'r coleg? Dw i'n mwynhau'r cwrs yn fawr, yn enwedig economeg. Mae 40 credyd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn.
Mantais: Mae'n llawer haws astudio trwy gyfrwng y Gymraeg gan fy mod i'n gyfarwydd â'r termau ar ôl i mi dderbyn addysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Glan Clwyd.
Y dyfodol? Mi faswn i'n hoffi dechrau fy musnes fy hun ar ôl cael swydd a phrofiad gyda busnes arall yn gyntaf.
Amser mwynhau? Dw i'n mwynhau cymdeithasu ym Mangor. Ar y penwythnos dw i'n eitha' prysur yn gweithio gartre' ar y fferm, a dw i'n chwarae cefnwr i dîm rygbi Dinbych. Gwaith a joio law yn llaw!

Ysgoloriaethau – mwy a mwy ar gael

Eleni, mae mwy a mwy o gyrsiau prifysgol yn rhan o gynllun ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae cyrsiau cymwys ar gael yn Abertawe, Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Morgannwg, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, a'r Drindod Dewi Sant, ac eleni am y tro cyntaf mae sawl cwrs cymwys ar gyfer ysgoloriaethau cymhelliant ym Mhrifysgol Morgannwg. Mae gwybodaeth lawn am yr holl gyrsiau cymwys ar wefan Mantais.

Actio a golchi dillad – byd newydd Marc

Bydd Marc Lloyd Jones o Fangor yn troedio llwyfan Theatr y Grand yn Abertawe fis Mawrth nesaf.

Ac yntau'n fyfyriwr blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Abertawe, mae wedi ymuno â'r Gymdeithas Ddrama ac wedi cael ei ddewis i fod yn un o'r disgyblion yn nrama Alan Bennett, *The History Boys.*

"Mae'n hwyl," meddai Marc. "Ro'n i'n mwynhau cymryd rhan mewn sioeau cerdd yn yr ysgol ac mae'n braf cael y cyfle i fod ar lwyfan theatr unwaith eto.

"Dw i wedi ymuno ag amryw o gymdeith-asau yma yn y Brifysgol, a dw i'n mwynhau gwylio pêl-droed hefyd. Dw i ddim wedi llwyddo i gael tocyn i weld Abertawe yn y Brif Gynghrair eto, ond mi wnes i weld tîm Cymru'n curo'r Swistir yn Stadiwm y Liberty."

Mae Marc wedi derbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac mae'n astudio pedwar modiwl trwy gyfrwng y Gymraeg eleni.

Mae ganddo ddiddordeb yn y maes cadwraeth ac mewn cynllunio amgylchedd.

"Dw i hefyd yn falch ofnadwy o gael y cyfle i wneud modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg. Dw i wedi cael fy magu, ac wedi cael fy addysgu ers i mi fod yn bedair oed, trwy gyfrwng y Gymraeg."

Mae Marc yn bwriadu defnyddio arian yr Ysgoloriaeth i helpu efo rhent a chostau byw ac i brynu gwerslyfrau. "Dw i wedi sylweddoli gymaint oedd Mam yn ei wneud. Mae golchi dillad yn fusnes drud!"

£3000 yn gwneud gwahaniaeth

Pwy? Catrin Faulknall
O ble?: Porth, Y Rondda
Pa ysgolioriaeth?: Un o'r prif ysgoloriaethau
Cwrs: Rwy ar fy mlwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Aberystwyth yn astudio Theatr, Ffilm a'r Cyfryngau.
Pam dewis Aber? Rwy'n rili licio'r cyfle i gael byw ger y lli! A ro'n i rili moyn cario mlaen gyda drama gan fy mod i wedi mwynhau'r pwnc gymaint yn Ysgol Gyfun y Cymer.
Hoffi'r cwrs? Odw, yn enwedig y gweithdai perfformio. Mae yna lot o amrywiaeth ar y cwrs. Rwy'n hoffi gwneud y gwaith corfforol.
Gwerth cael Ysgoloriaeth? Fydda' i'n derbyn £3,000 gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol dros y tair blynedd nesaf, ac fe fydd e'n gwneud gwahaniaeth mawr. Fe fydd mam yn gallu ymlacio dipyn bach! Rwy wedi cael swydd hefyd - yn gweithio yn y Llew Du.
Y peth gorau am y coleg? Cymdeithasu!
Cyngor doeth? Pan wyt ti'n ceisio penderfynu pa goleg i fynd iddo, gwna'n siŵr dy fod yn ymweld â phob un ar dy restr fer. Mae'n llawer haws gwneud penderfyniad wedyn.

3 Hoff Beth Catrin

Pyjamas
Fy nghar i (Renault Twingo du sy'n lyfli)
Glased o win a lemonêd.